**<u>Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 12-02 (p8)</u>**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 17 Gorffennaf

## YMCHWILIAD Y PWYLLGOR I DDYFODOL CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL

### Diben

1. Ystyried cylch gorchwyl drafft a thrywydd posibl ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru.

### Cefndir

2. Fel rhan o'i raglen waith ar gyfer tymor yr hydref, mae'r Pwyllgor wedi nodi ei ddymuniad i gynnal adolygiad o ddyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor geisio ategu gwaith y Gweithgor Amaeth-amgylcheddol ac unrhyw gynigion a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod yr haf (cyflwynwyd papur ger bron y Pwyllgor ar y syniadau a gafodd eu gwyntyllu yng nghyfarfod diwethaf y Gweithgor ). Mae'r papur hwn yn amlinellu cylch gorchwyl drafft yr ymchwiliad ac yn awgrymu rhaglen ar ei gyfer.

### Cylch gorchwyl drafft

3. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo'r cylch gorchwyl drafft canlynol:

*Ystyried pa mor effeithiol yw Tir Gofal wrth gyflawni ei amcanion a gwneud argymhellion ar gyfer ffurf a dull o ariannu cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru yn y dyfodol.*

### Y Camau Nesaf

4. Os caiff y cylch gorchwyl ei gymeradwyo, yn union ar ôl hynny, gwahoddir pobl i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig erbyn diwedd mis Medi. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn paratoi rhestr o unigolion a chyrff y bwriedir cysylltu â hwy ac yn ei dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor er mwyn cael eu sylwadau.

5. Gwahoddir pobl hefyd i wneud cyflwyniadau llafar ychwanegol ar yr un sail â'r ymatebion ysgrifenedig.

6. Er mwyn llywio'r adolygiad ymhellach, cynigir bod y Pwyllgor yn cynnal cyfres o ymweliadau i ystyried dulliau eraill o integreiddio cynlluniau "bras a bas" â chynlluniau llymach megis Tir Gofal neu'r Cynllun Ffermio Organig.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

7. Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ac i gytuno ar y cylch gorchwyl drafft ym mharagraff 3 a'r camau nesaf a amlinellir ym mharagraffau 4 i 6. Gofynnir hefyd i'r aelodau enwi unrhyw unigolion neu gyrff y gellid eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ac unrhyw faterion y dylid rhoi sylw iddynt yn ystod yr ymchwiliad, er mwyn i'r Ysgrifenyddiaeth allu llunio rhaglen berthnasol.

-

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Gorffennaf 2002**

**Atodiad 1**

**YMCHWILIAD I DDYFODOL CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL**

**AMSERLEN DDRAFFT**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher 17 Gorffennaf | Cytuno ar gylch gorchwyl |
| | Llythyr |
| Tymor | Ystyried |
| Gwanwyn | Cytuno |